# Yr her:

Wel, mae cyfnod y Nadolig wedi cyrraedd unwaith eto. Yn dilyn flwyddyn od iawn, mae'n amser dathlu'n ddiogel gyda'r teulu. Mwynhewch y cyfnod yma a gobeithiwn fyddwch yn mwynhau cwblhau'r gweithgareddau a osodwyd i chi dros y dyddiau nesaf.



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth ydych yn mwynhau yn ystod cyfnod y Nadolig?
- Pwy ydych yn treulio'r cyfnod yma gyda?
- Sut ydych yn teimlo yn ystod cyfnod y Nadolig?
- Beth yw eich uchafbwyntiau?
- Beth ydych wedi gweld eisiau fwyaf y flwyddyn yma?
- Beth ydych wedi mwynhau yn ystod eich tymor cyntaf yn eich dosbarth newydd?

# Nadolig (Bl 1 & 2)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Ymarfer dysgu geriau sillafu. Mae'r geiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer!<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 - tabl 1, 2, 5 a 10/Bl2 - tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!)<br>• Mathemateg - Bondiau rhif hyd at 100 - adio a thynnu.<br>• Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian<br>• Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | • Joe Wicks - sesiynau ar 'You Tube' (Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga – sesiynau ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd, addurno'r tŷ ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Crëwch map meddwl am y Nadolig. Meddyliwch am draddodiadau, dathliadau, gemau, storiau, caneuon, bwydydd ag ati. Ychwanegwch luniau i gyd-fynd a'ch geiriau. | Gofynnwch aelodau eich teulu a ffrindiau 'Beth yw eich hoff siocled i fwyta amser Nadolig?' Cofnodwch rhain ar graff bar ar Hwb. Gallwch chi hyd yn oed danfon neges a ofyn eich athro / athrawes beth yw ei hoff siocled nhw! | Beth am aros yn ffit dros gyfnod y Nadolig? Gwnewch y gylched ymarfer corff yma gydag aelodau o'ch teulu. 25 naid seren...neidiwch 25 gwaith fel Rwdolff, rholiwch fel cracer Nadolig, cydbwyswch ar un goes am 25 eiliad. Beth am amseri eich gilydd? Pwy wnaeth gwblhau'r cwrs y gyflymaf? |
| Ewch ati i greu bortread am Sion Corn. Cofiwch i gynnwys ffeithiau amdano e.e. enw, oed, lliw gwallt, lliw llygaid, hoff liw, hoff fwyd, hoff ddiod, hoff wlad, hoff garw ayyb. Beth am dynnu ei lun hefyd? | Ewch ati i gasglu data gydag oedolyn am ba addurniadau Nadolig welwch ar eich stryd / yn eich pentref e.e coeden Nadolig, seren Nadolig, Sion Corn, dyn eira, Rwdolff ayyb. Beth am gofnodi sawl un o bob addurn welwch a rhowch eich canlyniadau ar HWB. | Mewngofnodwch i'ch gyfrif HWB – crëwch fideo anemeiddio Nadolig gan ddefnyddio'r rhaglen animeiddio ar JIT. Cofiwch roi teitl i'ch gwaith ac yna ei arbed. Bydd eich athrawon yn dwli gweld eich gwaith anemeiddio dros y dyddiau nesaf! |
| Ysgrifennwch set o gyfarwyddiadau yn esbonio sut i lapio anrheg Nadolig. Cofiwch restri'r hyn sydd angen gwenud gan ddefnyddio berfau gorchymynol e.e. torrwch, lapiwch, mesurwch, ysgrifennwch ag ati. | Dychmygwch mai chi yw Sion Corn. Crëwch ddyddiadur amser yn cofnodi beth rydych yn gwneud yn ystod y dydd e.e. 7 y.b Codi o'r gwely ac ymolchi, 7.15 y.b Gwisgo siwt coch, 7.30 y.b Bwyta brecwast, 8.00 y.b Bwydo'r ceirw ayyb. | Gydag oedolyn, ewch ati i goginio / addurno bisgedi Nadolig. Ar ôl coginio / addurno, beth am dynnu llun o chi'n mwynhau ei bwyta – rhannwch rhain gyda ni ar HWB.<br>HER – Ewch ati i ysgrifennu rysait bisgedi syml. |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Calendr Caredigrwydd<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddion diweddaraf<br>Science Investigations – STEM website<br>stemsational.com | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Orielodl – fideo cam wrth gam | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg |

| | | |
|---|---|---|
| Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim | Llifo'n Llawen – Yoga | mathsalamanders.com |
| www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd | Just Dance – 'Youtube' | Traed Bach Sionc (Busy Feet) – Youtube |
| UKTWINKLHELPS | Amser Stori Atebol – 'You Tube | Llyfrau Coeden Darllen Rydychen -HWB |
| Zumba Kids | Amser stori gyda Sion Corn – Llyfrgelloedd Sir Gaer | |